

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffem atgoffa pawb o'r safonau disgwyliedig yn Ysgol Bryn Tawe unwaith eto. Er bod mwyafrif y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn y wisg gywir yn ddyddiol, mae nifer fach ddim yn gwneud. Er y gallai hyn gael ei weld yn fater bach i rai, mae gwisg ysgol yn helpu i greu amgylchedd ysgol diogel a hapus, fel sydd o hyd yn cael ei brofi mewn ysgolion ledled Prydain.

Mae ein safonau a'n disgwyliadau ar gyfer ymddangosiad eich plentyn yn yr ysgol wedi bod, a byddant yn parhau i fod yn uchel ac yn rhesymol. Heb amheuaeth, mae ymddangosiad plentyn yn diffinio'r parch sydd gan ddisgybl tuag at ei hun a'i h/ysgol. Hoffwn felly uwcholeuo ambell beth fydd yn sicrhau, gyda'ch cydweithrediad chi fel rhieni, bod y safonau ym Mryn Tawe yn parhau i fod yn rhai y byddwch fel rhieni, bydd y disgyblion a ninnau fel staff yr ysgol yn ymfalchïo ynddynt

Mae'r wybodaeth o ran ein disgwyliadau gwisg ac esgidiau wedi'i osod allan yn glir yn llyfr cyswllt eich plentyn ac ar wefan yr ysgol. Dyma rhai pwyntiau hoffwn uwcholeuo i bawb, er mwyn sicrhau safonau uchel a chyson ar draws yr ysgol:

- **Esgidiau du plaen yn unig**
- **Trowsus du plaen** - Ni chaniateir jîns o unrhyw fath(gan gynnwys jîns tynn), 'cords', trowsus tynn 'lycra' na throwsus 'combat' neu **Sgert ddu blaen** sy'n cyrraedd y pen-glin. Ni chaniateir sgertiau elastig tynn.
- **Siorts Haf** - caniateir hyd pen-glin, siorts du plaen (heb logos). Ni chaniateir siorts chwaraeon e.e. siorts pêl-droed neu siorts Addysg Gorfforol fel gwisg bob dydd.
- **Siwmperi a chotiau** – siwmperi ysgol yn unig, a chotiau du neu nefi plaen yn unig.
- **Gemwaith** – mae hawl gan ddisgyblion i wisgo un styd plaen ar waelod y clust yn unig – h.y. dim gemwaith ar unrhyw rhan arall o'r corff am rhesymau iechyd a diogelwch.
- Nid oes hawl gwisgo **paent ewinedd**, neu **estyniadau i'r ewinedd**

Mae gwisg y chweched ychydig yn wahanol, ac oherwydd hyn nid yw siwmperi du yn dderbyniol i unrhyw ddisgybl o flynyddoedd 7-11.

Byddwn yn gwirio gwisg pawb yn rheolaidd, a phetai rhywun yn y wisg anghywir – bydd disgwyl iddyn nhw addasu/newid ar unwaith - fe fyddwn yn rhoi fenthyg gwisg glân (e.e. Siwmperi) i ddisgyblion sydd yn y wisg anghywir. **Disgwylir i bawb sydd â thrwyn wisg ac ewinedd hir/liwgar tynnu rhain** - unrhyw ddisgybl sydd â thrwyn wisg bydd rhaid iddyn tynnu a'i rhoi mewn i'r swyddfa tan ddiwedd y dydd.

Petai problem gyda gwisg eich plentyn, **bydd angen sicrhau bod nodyn(wedi ei dyddio)** ganddynt, yn esbonio'r rheswm am y wisg anghywir. Fe fyddwn yn rhesymol gyda'r ceisiadau yma, ond disgwylir i rieni/disgyblion datrys y broblem yn fuan.

OFFER YSGOL

Mae nifer cynyddol o ddisgyblion hefyd yn mynychu'r ysgol bob dydd heb yr offer cywir (e.e. Pen, Pensil, Rwber, Sharpener, Ruler ac ati). Disgwylir i bob disgybl fod yn barod i ddysgu bob



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



dydd, mae hyn yn cynnwys dod ag achos pensil gyda'r offer uchod, a bag i'r ysgol yn ddyddiol. Byddwn yn monitro hyn unwaith eto, gyda chanlyniadau i unrhyw ddisgybl sy'n mynychu heb yr offer cywir. Unwaith eto, hoffem ddiolch i'r disgyblion a'r rhieni hynny sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd gyda set lawn o offer cywir.

Hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cydweithrediad, unwaith eto, o flaen llaw ac am weddill y flwyddyn. Os oes problem prynu'r wisg cywir neu gydag offer – cysylltwch gyda'r Arweinydd Dysgu perthnasol neu minnau.

Yn gywir,

Mark Bridgens
(Pennaeth Cynorthwyol)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

Aur

